Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# UCD Sir Ddinbych
# Ffordd Ysgol Plas Cefndy
# Sir Ddinbych
# Y Rhyl
# LL18 2HG

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag UCDau Sir Ddinbych

Mae UCD portffolio Sir Ddinbych yn uned cyfeirio disgyblion (UCD) pob oedran ar gyfer disgyblion sy'n profi anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY). Mae'r UCD yn gweithredu ar draws tri safle, gyda strwythur rheoli llinell integredig, ac fe gaiff ei goruchwylio gan un pwyllgor rheoli.

Mae'r prif safle yn Ysgol Plas Cefndy yn cynnwys darpariaeth y cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 4 ar gyfer disgyblion ag ACEY. Mae'r safle yn Rhuthun yn cynnwys darpariaeth Cam wrth Gam ar gyfer disgyblion yn y sector cynradd. Mae hyn yn darparu lleoliadau tymor byr a rhan-amser ar gyfer disgyblion ag ACEY. Mae'r safle yn Y Rhyl yn cynnwys darpariaeth Cerrig Milltir ar gyfer grŵp bach o ddisgyblion cyfnod allweddol 3 a 4 sydd â lefelau uchel o orbryder. Nod yr UCD yw dychwelyd disgyblion i addysg brif ffrwd neu i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae 78 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae panel lleoli'r awdurdod lleol yn rheoli'r holl dderbyniadau i'r UCD. Mae gan fwyafrif y disgyblion gofrestriad deuol gyda'u hysgol brif ffrwd. Gall yr holl ddisgyblion gael addysg amser llawn.

Mae tua wyth deg y cant o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae gan un deg pedwar y cant o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig, ac mae pob un o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig. Mae disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith yn bennaf.

Arolygwyd yr UCD ddiwethaf ym mis Tachwedd 2014.

## Crynodeb

Mae uned cyfeirio disgyblion (UCD) portffolio Sir Ddinbych yn ddarpariaeth hynod effeithiol. Mae disgyblion ag ystod eang o anghenion a galluoedd yn gwneud cynnydd da iawn yn ystod eu cyfnod yn yr UCD. Dros gyfnod, mae canran uchel iawn o ddisgyblion yn dychwelyd ac yn cynnal lleoliadau mewn addysg brif ffrwd. Mae hyn yn gyflawniad rhagorol o'u mannau cychwyn.

Mae'r UCD yn darparu amgylchedd cynnes a gofalgar. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais, ac yn dangos lefelau uchel o barch at ei gilydd, at staff ac at ymwelwyr i'r UCD. Mae gweithgareddau'r cwricwlwm yn hynod ddifyr a llawn cymhelliant ac yn darparu ystod gyffrous o brofiadau dysgu ar gyfer disgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn yn bodloni anghenion disgyblion yn eithriadol o dda, yn datblygu gwydnwch ac yn cefnogi datblygiad emosiynol, ymddygiadol ac academaidd yn hynod effeithiol. O ganlyniad, mae cyfradd presenoldeb disgyblion yn uchel iawn.

Mae gan staff ddealltwriaeth fanwl o anghenion disgyblion, a thrwy ddadansoddiad trylwyr o'r holl ddata, maent yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn y cymorth a'r ymyrraeth sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y tymor hir. Mae gan y staff berthnasoedd rhagorol wrth weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd a wna disgyblion.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth eithriadol o dda ar gyfer yr UCD. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn hynod effeithiol yn eu rolau, sy'n darparu sefydlogrwydd ar draws yr UCD. Mae staff yn dangos cymhelliant ac ymdrech eithriadol o dda i wella'r deilliannau ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad cryf iawn i gyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff yn yr UCD. Mae hyn yn cyfrannu'n gryf at gynnydd yr UCD ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn gyffredinol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, ar gyfer disgyblion o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr UCD i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â nifer uchel y disgyblion sy'n dychwelyd ac yn cynnal eu lleoliad mewn addysg brif ffrwd, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn mewn gwersi, gan gyflawni'r targedau a nodwyd ar eu cyfer, a gwella eu dysgu. Maent yn ymateb yn dda iawn i ymagwedd sensitif a meithringar y staff, ac yn gwneud cynnydd rhagorol o ran cyflawni eu targedau yn eu cynlluniau dysgu ac ymddygiad unigol. Yn rhannol, mae hyn oherwydd bod disgyblion yn defnyddio cyfleoedd effeithiol sydd wedi'u cynllunio'n dda iawn, i dynnu eu hunain o ddosbarthiadau pan fyddant yn teimlo wedi eu gorlethu, ac yn dychwelyd pan fyddant yn barod i ddysgu. Maent yn gwybod bod mannau a staff ar gael i'w helpu trwy gyfnodau anodd, a daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eithriadol o fedrus yn adnabod y teimladau sy'n achosi gofid iddynt. O ganlyniad i'w dealltwriaeth well, maent yn osgoi pyliau o ymddygiad amhriodol ar y cyfan, ac yn dychwelyd i wersi yn barod i ddysgu.

Dros gyfnod, a gyda chymorth medrus, mae ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob un o'r disgyblion yn hynod ddatblygedig. Wrth iddynt ddod i ddeall y rhesymau am eu hymddygiad gwael, dysgu i reoli eu dicter a gwella eu hunan-barch, maent yn canolbwyntio ar ddysgu medrau academaidd. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, roedd hyn yn ormod o her yn y gorffennol. Fodd bynnag, dros gyfnod, mae canran uchel iawn o'r disgyblion o'r UCD wedi dychwelyd i'w hysgolion prif ffrwd, ac wedi cynnal eu lleoliadau. Mae hyn yn amlygu cynnydd rhagorol yn eu hymddygiad a'u datblygiad academaidd. Mae hyn yn gyflawniad rhagorol o'u mannau cychwyn.

Yn ystod eu cyfnod yn yr UCD, mae disgyblion yn canolbwyntio ar wella eu hymddygiad a rheoli eu hemosiynau. Fodd bynnag, mewn gwersi, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn gyson, a chynnydd rhagorol yn eu dysgu academaidd mewn lleiafrif o achosion. Er enghraifft, maent yn mwynhau a llwyddo mewn gemau mathemateg pen wrth iddynt ddatblygu eu medrau rhifedd. Mae disgyblion hŷn yn cyfrifo hafaliadau algebraidd cymhleth yn gywir fel rhan o'u gwaith TGAU. Mae'r disgyblion hyn yn trosglwyddo eu medrau'n hyderus i wersi gwyddoniaeth lle maent yn rhoi'r hafaliad geiriau ar gyfer ffotosynthesis yn gywir.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn eithriadol o dda. Dros gyfnod yn yr UCD, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu geirfa yn sylweddol i fynegi eu teimladau, ac yn dechrau cyfathrebu'n hyderus ac effeithiol iawn. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod sut i wella eu llafaredd mewn TGAU i'w gwneud yn fwy diddorol i'r gwrandäwr.

Mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu darnau estynedig fel adolygiad llyfr o nofel Michael Morpurgo, War Horse. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus. Mae staff yn darparu sesiynau dyddiol gyda chefnogaeth dda yng nghyfnod allweddol 2, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella eu medrau darllen ac ysgrifennu yn ystod eu cyfnod yn yr UCD. Mae llawer o ddysgwyr hŷn yn defnyddio eu medrau datblygol yn gymwys i gael y wybodaeth ddiweddaraf am newyddion dyddiol a digwyddiadau byd-eang.

Mae bron pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 3 a 4 yn gwneud defnydd effeithiol iawn o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau. Defnyddiant y rhyngrwyd yn fedrus i ddarganfod mwy am effaith trychineb Chernobyl ar fwtadiadau genetig.

Ar draws yr UCD, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn dda iawn. Maent yn datblygu medrau myfyrio cadarn ac yn dechrau ystyried eu dewisiadau cyn gweithredu. Maent yn cyflwyno cwestiynau meddylgar, fel 'a ddylem ni dacluso cyn i ni fynd allan i chwarae?' I lawer o ddisgyblion, mae'r aeddfedrwydd hwn o ran meddwl cyn gweithredu yn gynnydd sylweddol o'u man cychwyn. Mae llawer o ddisgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau dwyieithog yn ystod eu cyfnod yn yr UCD.

Trwy gysylltiadau effeithiol iawn yr UCD â chanolfan grefftau leol a gydag arlunwyr preswyl, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol o ran datblygu eu medrau creadigol a chymdeithasol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyffrous i ddatblygu eu medrau creadigol. Er enghraifft, maent yn dysgu gweithio fel tîm trwy fesur, rholio, stampio siapiau i ddylunio a gwneud polyn totem mawr o grochenwaith. Mae hyn yn cryfhau medrau academaidd a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus.

Mae disgyblion yn yr UCD yn mwynhau gweithgareddau rheolaidd yn yr awyr agored lle maent yn dysgu cydweithio a gwella eu medrau corfforol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cerdded neu'n rhedeg y filltir ddyddiol o gwmpas yr ysgol i'w cadw eu hunain yn heini. Mae disgyblion hŷn yn mwynhau defnyddio caiacau'r ysgol i ddatblygu eu medrau ymhellach.

Mae disgyblion hŷn yn yr ysgol yn ennill ystod eang o fedrau a chymwysterau i gefnogi eu llwybrau yn y dyfodol. Mae cyrhaeddiad disgyblion yn yr UCD wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn ers yr arolygiad diwethaf. Dros y 3 blynedd ddiwethaf, gadawodd pob un o ddisgyblion Blwyddyn 11 gydag o leiaf un cymhwyster. Mae'r ystod yn cynnwys cymwysterau academaidd fel mathemateg, Saesneg, Cymraeg, ffiseg a bioleg TGAU a chymwysterau galwedigaethol mewn pynciau ymarferol fel technoleg bwyd, chwaraeon a theithio a thwristiaeth. Mae hyn yn gryfder sylweddol yn yr UCD. Mae cyrchfannau ymadawyr yn dangos tuedd gynaledig ar i fyny, ac yn cynnwys cyrsiau coleg a phrifysgol. Y llynedd, aeth yr holl ymadawyr ymlaen i leoliadau yn y coleg addysg bellach lleol neu brentisiaethau.

Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu'r UCD ystod eang o anghenion, gan gynnwys anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi profi cyfnodau sylweddol o aflonyddwch i'w dysgu ffurfiol cyn iddynt gyrraedd yr UCD. Mae llawer ohonynt yn ymuno â'r UCD mewn cyfnodau o argyfwng personol, yn aml tuag at ddiwedd eu haddysg orfodol, ac ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn academaidd. O ganlyniad, mae amrywiad sylweddol ym mannau cychwyn, cymhelliant a gallu dysgu disgyblion unigol. O'r herwydd, nid yw'n briodol cymharu safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr UCD â chyfartaleddau cenedlaethol nac i ddadansoddi tueddiadau mewn perfformiad cyffredinol dros gyfnod.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn yr UCD yn gwneud cynnydd eithriadol o gryf o ran eu lles a'u hagweddau at ddysgu dros gyfnod. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi profi aflonyddwch sylweddol yn eu haddysg, maent yn ymateb yn dda iawn i ethos meithringar a gofalgar yr UCD, ac yn datblygu medrau pwysig mewn goddefgarwch a gwydnwch a pharch. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos parch at ei gilydd, staff ac at bobl sy'n ymweld â'r UCD, ac yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol gyda thîm y staff.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu presenoldeb yn sylweddol yn yr UCD o fannau cychwyn isel, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal hyn trwy gydol eu lleoliad. Mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn cerdded, beicio neu'n defnyddio sgwteri i deithio i'r UCD yn annibynnol. Mae'r disgyblion hyn yn mynychu'n dda iawn, ac mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'u presenoldeb blaenorol yn y brif ffrwd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu agweddau hynod gadarnhaol at eu dysgu. Maent yn ymdawelu'n gyflym i gwblhau gweithgareddau strwythuredig, yn canolbwyntio'n dda ac yn cwblhau tasgau'n llwyddiannus. Mae disgyblion yn ymfalchïo'n fawr yn eu gwaith, ac yn dyfalbarhau i gwblhau darnau gwaith cymhleth, fel symudiad platiau tectoneg mewn gwersi gwyddoniaeth, wrth astudio symudiadau yn nhirfas y ddaear. Gwnânt hyn yn llwyddiannus iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn gadarnhaol iawn am eu lleoliad ysgol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn datblygu rhagolwg cadarnhaol iawn ar gyfer eu dyfodol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr UCD, ac yn gwybod beth i'w wneud ac at bwy i droi os byddant yn teimlo'n bryderus neu'n ofnus.

Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd hynod effeithiol o ran datblygu strategaethau i reoli eu hymddygiad yn llwyddiannus iawn. Maent yn tyfu i ddeall eu hemosiynau, gwella eu hunan-barch a gwneud dewisiadau gwybodus am fywyd. Mae hyn yn gryfder arbennig yn yr UCD.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o sesiynau buddiol i fyfyrio ar eu dysgu eu hunain gyda staff. Maent yn cynnig barn werthfawr am yr UCD trwy sesiynau un i un, grwpiau trafod ac amseroedd cyfarfod anffurfiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau trafod da i ystyried y dyluniadau a'r themâu ar gyfer ystafelloedd ymneilltuo unigol, a dyfeisio ac adolygu'n rheolaidd god ymddygiad disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall effaith diet iach, a ffordd iach o fyw. Gwnânt ddewisiadau iach amser brecwast ac amser cinio, a gwnânt ddefnydd da iawn o wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn yr UCD am fwyta ac yfed yn iach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr amseroedd prydau bwyd cymunol hyn yn frwdfrydig, gan weini ei gilydd a staff, wrth iddynt ddatblygu medrau cymdeithasol pwysig yn eithriadol o dda.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgymryd â medrau corfforol yn egnïol trwy gymryd rhan mewn milltir ddyddiol yng nghyfnod allweddol 2, a nofio, pêl-droed ac addysg awyr agored yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn gwerthfawrogi'r sesiynau campfa wythnosol yn y ganolfan hamdden leol fel rhan o'u cwrs TGAU.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd yn eithriadol o dda ag amrywiaeth o brosiectau cymunedol buddiol. Maent yn cynllunio a chynnal gwelyau blodau dynodedig ar bromenâd y Rhyl, sydd wedi eu marcio ag enw'r ysgol. Yn ychwanegol, maent yn mwynhau gweithio gyda phreswylwyr mewn cartref gofal lleol i ddatblygu eu medrau cymhwysedd digidol ac yn gwirfoddoli mewn caffi eglwys i weini'r cyhoedd. Mae'r cysylltiadau hynod effeithiol hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu synnwyr cryf iawn o werth eu cymuned leol a'u cyfraniad at y gymuned honno.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu eithriadol o gadarnhaol ar gyfer disgyblion, sy'n datblygu eu diddordebau a'u medrau ar draws ystod hynod werth chweil o feysydd pwnc, gan gynnwys Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg bersonol a chymdeithasol. Mae hyn yn helpu bron pob un o'r disgyblion i ddatblygu'r wybodaeth, y medrau a'r hunan-barch sydd eu hangen i gefnogi ailintegreiddio llwyddiannus mewn addysg brif ffrwd, dysgu yn y gwaith neu addysg bellach.

Mae'r UCD yn darparu cwricwlwm cryf ac arloesol iawn, sy'n galluogi bron pob un o'r disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus a gwybodus. Mae cwricwlwm yr UCD yn hyblyg ac yn bodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r ddarpariaeth ar gyfer addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, i ddisgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel iawn o'u disgyblion. Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio gwersi a gweithgareddau'n dda iawn gyda chynnwys hynod ddifyr i gynnig her bwrpasol i ddisgyblion. Defnyddiant ddull trylwyr o osod targedau yn glir a llwyddiannus i lywio amcanion y wers, sy'n darparu her briodol ar gyfer bron pob un o'r disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod eu targedau a sut i'w cyflawni. Mae cyflymdra gwersi yn dda iawn, gyda defnydd medrus o sbardunau gweledol i gynnal ffocws ar gyfer disgyblion. Mae staff cymorth yn darparu mewnbwn eithriadol o dda o safon uchel ar draws addysgu, dysgu a lles disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o weithgareddau hynod gymhellol, gan gynnwys amser cylch a chwisiau. Defnyddiant weithgareddau cynhesu yn effeithiol iawn fel bod disgyblion yn bwrw ymlaen â'u gwaith yn brydlon. Mae staff yn gweithio gyda disgyblion yn unigol mewn mannau ymneilltuo. Mae hyn yn llwyddiannus o ran cynorthwyo bron pob un o'r disgyblion i wneud cynnydd da iawn â'u medrau cyfathrebu, eu medrau cymdeithasol a'u hymddygiad.

Mae gan staff ar draws yr UCD berthnasoedd gwaith rhagorol gyda'r disgyblion. Maent yn deall anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn eithriadol o dda, ac yn eu canmol a'u hannog yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ymgymryd â gweithgareddau, ac yn dyfalbarhau â thasgau. Mae staff yn rheoli ymddygiad heriol disgyblion yn fedrus iawn ac yn ymateb yn bwyllog ac yn sensitif pan fydd disgyblion yn cael pethau'n anodd. O ganlyniad, mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion mewn gwersi yn rhagorol.

Mae athrawon yn gyson fedrus a phwrpasol wrth roi adborth llafar ac ysgrifenedig. Mae staff yn defnyddio holi medrus yn dda iawn i wirio dealltwriaeth disgyblion a datblygu medrau meddwl a datrys problemau disgyblion ar draws yr UCD.

Mae pob un o'r athrawon yn annog disgyblion i ddefnyddio strategaethau hunanasesu effeithiol iawn yn gyson dda ar ddiwedd gwersi. Er enghraifft, mae'r system gyfrif yng nghyfnod allweddol 2 yn sicrhau bod disgyblion yn myfyrio ar a hyrwyddo perchnogaeth o'u hymddygiad eu hunain yn effeithiol iawn.

Mae pob un o'r athrawon yn cynllunio'n dda iawn ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Mae cynllunio athrawon ar draws y cwricwlwm ar gyfer datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd wedi'i sefydlu'n dda, ac mae cynllunio yn

canolbwyntio'n gryf ar ddilyniant ac atgyfnerthu clir o ran medrau allweddol. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn y meysydd hyn. Mae darpariaeth yr UCD ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol yn gryfder arbennig, trwy gyflwyno gweithgareddau amser cylch cynlluniedig ar draws yr UCD. Mae staff ar draws yr UCD yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu medrau byw yn annibynnol i hyrwyddo medrau dysgu gydol oes disgyblion. Mae gweithgareddau fel gweithgareddau cymunedol, sy'n cynnwys disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu hoffer ystafell ddosbarth eu hunain i gynllunio a gwneud eu prydau bwyd eu hunain, yn werthfawr iawn. Mae'r gweithgareddau hyn o fudd mawr i ddisgyblion, yn enwedig y rheiny sy'n dychwelyd i addysg brif ffrwd yn llwyddiannus.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae staff yn yr UCD yn darparu lefel ragorol o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer eu disgyblion. Maent wedi datblygu polisïau, strategaethau ac arweiniad hynod effeithiol y maent yn eu cymhwyso'n gyson i sicrhau eu bod yn gwneud cyfraniad cryf at ddeilliannau dysgu disgyblion, a'u lles. Caiff awyrgylch pwyllog a phwrpasol yr UCD effaith gadarnhaol iawn ar ddisgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ymddygiad eithriadol o gadarnhaol y disgyblion ar draws holl safleoedd yr ysgol.

Daw pob un o'r staff i adnabod y disgyblion yn dda iawn yn ystod y cyfnod byr y mae disgyblion yn mynychu. Mae hyn o ganlyniad i'r gwaith partneriaeth rhagorol gyda'u hysgol brif ffrwd cyn lleoli, ac asesiad trylwyr wedi i'r disgyblion ddechrau mynychu. Mae staff yn rhoi sylw manwl i ddeall anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion er mwyn eu helpu i wneud cynnydd er mwyn iddynt allu mynd yn ôl i'w hysgol brif ffrwd. Mae staff yn monitro anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn effeithiol iawn i sicrhau eu cynnydd parhaus yn unol â'r targedau a osodwyd gan eu hysgol brif ffrwd.

Mae gan yr UCD bartneriaethau sefydledig iawn ag ysgolion prif ffrwd, sy'n sicrhau bod ganddi wybodaeth gefndirol gynhwysfawr cyn i ddisgyblion fynychu. Mae staff yn cynnal cyswllt rheolaidd gydag ysgolion i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd disgyblion. Maent yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni ac asiantaethau eraill, fel CAMHS, gwasanaethau plant a gwasanaethau ieuenctid i ddatblygu dealltwriaeth gywir o anghenion disgyblion.

Mae gan yr UCD system olrhain gadarn ac effeithiol sy'n cael ei rhoi ar waith yn gyson gan athrawon ar draws y safleoedd amrywiol. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn monitro cynnydd academaidd, presenoldeb ac ymddygiad yn agos ar draws yr holl gyfnodau allweddol. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i nodi disgyblion sydd angen cymorth, ac i gynllunio ymyriadau effeithiol. Mae uwch reolwyr yn cynnal gweithgareddau monitro ffocysedig rheolaidd, fel bwrw golwg ar lyfrau a theithiau dysgu, sydd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar y modd y mae athrawon yn cynllunio ac addasu gwaith mewn gwersi yn y dyfodol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion unigol yn gwella mewn agweddau gwyddonol ar eu gwaith. Hefyd, mae uwch arweinwyr yn dadansoddi asesiadau athrawon a deilliannau'r holl brofion yn ofalus i fesur cynnydd disgyblion a sicrhau eu bod yn derbyn her a chymorth priodol.

Mae staff yn gwneud defnydd rhagorol o ystod o strategaethau ymyrraeth priodol i fodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion. Maent yn monitro effeithiolrwydd yr holl ymyriadau hyn yn drylwyr i gefnogi cynnydd disgyblion, yn cynnal asesiadau risg cynhwysfawr ac yn eu diweddaru'n rheolaidd.

Mae'r UCD yn cynnal cyfathrebu hyblyg iawn â'r rhan fwyaf o rieni trwy ddyddiaduron a galwadau ffôn rheolaidd. Mae staff yn darparu dosbarthiadau rhianta defnyddiol, gan gynnwys Byw gyda Phobl/Phlant yn eu Harddegau (Living with Teenagers). Mae'r UCD yn cydweithio'n hynod effeithiol gyda'r heddlu, asiantaethau eraill a sefydliadau fel yr NSPCC, Barnardo's a Gweithredu dros Blant. Mae hyn yn galluogi'r UCD i ddarparu ystod eang o gymorth effeithiol i rieni ddeall a rheoli anghenion eu plant. Caiff y partneriaethau hyn effaith werthfawr iawn ar ailintegreiddio'r disgybl i addysg brif ffrwd.

Mae staff yn yr UCD yn gwneud defnydd da o raglen addysg bersonol a chymdeithasol hynod effeithiol i baratoi disgyblion ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, mae hyn yn golygu dychwelyd i addysg brif ffrwd yn yr ysgol neu'r coleg. Mae'r UCD yn canolbwyntio'n gryf ar gael disgyblion i gymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain, ymdopi ag arferion ac ymddwyn yn dda. Mae staff yn defnyddio pob cyfle i annog disgyblion i ofalu amdanyn nhw eu hunain a phobl eraill, a datblygu'r hyder i ymgymryd â rôl gadarnhaol yn eu cymuned. Mae amrywiaeth o gyfleoedd cyffrous yn greadigol ac yn yr awyr agored, gan gynnwys abseilio a dringo creigiau, yn rhoi profiadau gwerth chweil i ddisgyblion fagu hyder a chymell eu dysgu.

Mae'r UCD yn darparu cyfleoedd defnyddiol iawn i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys peryglon alcohol, tybaco a chamddefnyddio sylweddau. Mae menter bartneriaeth ddiweddar yn darparu Sied Pobl Ifanc (Youth Shed), sef darpariaeth tymor byr arloesol oddi ar y safle lle mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o oblygiadau byw yn iach.

Mae gwaith y staff gydag asiantaethau eraill ynglŷn â disgyblion y maent yn pryderu amdanynt yn nodwedd gref yn yr UCD. Mae staff wedi datblygu gweithdrefnau cadarn iawn ar gyfer nodi a chofnodi pryderon, a gwnânt ddefnydd effeithiol iawn o'r polisïau a'r gweithdrefnau i sicrhau diogelwch disgyblion.

Mae trefniadau'r UCD ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn llawn cymhelliant ac yn hynod effeithiol. Mae ei gweledigaeth strategol gref iawn, sy'n rhoi anghenion y disgyblion wrth wraidd yr holl waith ar draws yr UCD, yn rhagorol. Mae staff yn rhannu'r weledigaeth hon yn frwdfrydig ac yn cefnogi'r tîm arweinyddiaeth yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth yn arwain trwy esiampl, sy'n cefnogi datblygiad y tîm arweinyddiaeth yn effeithiol ac yn hyrwyddo model arweinyddiaeth ddosbarthedig gadarn a chadarnhaol.

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn rhagweithiol ac yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol iawn. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel iawn o bob un o'i staff a'i disgyblion, sydd wedi arwain at ddiwylliant cryf o lwyddo ar gyfer pob un o'r disgyblion ar draws yr UCD. Mae pob un o'r staff yn fodelau rôl cadarnhaol ar gyfer disgyblion. Mae'r pwyslais ar ddisgwyliadau uchel a pharchu eich gilydd yn werth craidd, sy'n hyrwyddo ymdeimlad pwerus o ymddiriedaeth, diogelwch a llwyddiant ar draws yr

UCD. Mae'r pwyllgor rheoli wedi'i ddatblygu'n dda ac yn ymdrechu'n barhaus i wella'i rôl ar gyfer yr UCD.

Mae'r model arweinyddiaeth ddosbarthedig yn gwella'r broses hunanwerthuso yn effeithiol ar draws yr UCD. Mae uwch arweinwyr yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm i ddadansoddi deilliannau'r broses hunanwerthuso i gynllunio ar gyfer gwelliant cynaledig pellach. Mae pob un o'r staff yn cyfrannu'n dda iawn at y broses hunanwerthuso, gan arwain at ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau'r UCD. Mae staff yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau a'r modd y maent yn cyfrannu at y blaenoriaethau. Er enghraifft, mae gan bob un ohonynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd codi safonau lles disgyblion. Mae cynllun datblygu'r UCD yn amlinellu targedau mesuradwy yn glir, sy'n darparu dangosyddion gwelliant pwysig. Er enghraifft, parhau i godi cyfraddau presenoldeb disgyblion unigol.

Mae arweinwyr yn gweithio'n eithriadol o dda gydag ystod o bartneriaid. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi datblygu'n dda dros flynyddoedd lawer; er enghraifft, mae'r UCD yn gweithio'n agos gyda Gweithredu dros Blant, Plant ag Anableddau (Children with Disabilities) a Barnardo's i gynnig darpariaeth a chymorth cadarn ar gyfer yr holl ddisgyblion. Hefyd, mae'r UCD wedi sefydlu a chynnal cysylltiadau cryf iawn gyda'r ysgolion prif ffrwd ar draws yr awdurdod lleol. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi ymrwymo'n fawr i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol â rhieni ymhellach hefyd.

Mae'r pennaeth yn rhagweithiol ledled yr ardal, ac mae wedi arwain cynhadledd ranbarthol ar gyfer cydweithwyr UCD yn llwyddiannus. Effaith hyn fu cynyddu cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer staff yn yr UCD. Mae'r UCD yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at fentrau cenedlaethol, er enghraifft yr agenda diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae'r ymroddiad brwd gan arweinwyr i hyrwyddo cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff wedi cyfrannu'n sylweddol at gynnydd a lles disgyblion sy'n mynychu'r UCD. Mae arweinwyr yn cydnabod ac yn rhoi cefnogaeth lawn i ddiwylliant o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff. Mae'r holl ddysgu proffesiynol yn cysylltu â deilliannau rheoli perfformiad, datblygiadau unigol a blaenoriaethau ysgol. Mae hyn wedi cryfhau'r cymorth hynod fedrus sydd ar gael i ddisgyblion ar draws yr UCD a'r gwasanaeth allymestyn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn yr UCD yn darparu cyngor, strategaethau, adnoddau a hyfforddiant gwerthfawr ar gyfer staff ysgolion prif ffrwd i ddisgyblion. Mae niferoedd eithriadol o uchel y disgyblion sy'n dychwelyd i addysg brif ffrwd ac sy'n cynnal eu lleoliadau yn llwyddiannus, yn dangos effaith y cymorth hwn.

Mae uwch arweinwyr yn rheoli'r gyllideb ddirprwyedig yn effeithiol iawn. Maent wedi datblygu trefniadau ariannol trylwyr iawn, ac mae gwariant yn cysylltu'n effeithiol â blaenoriaethau'r UCD.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr UCD ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2019